

Yr Wyddor gyda Cyw



Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni,
Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni!

A am afal.
B am blodyn
C am car sydd yn gyrru yn gyflym
Ch am chwiban
D am drwm
Dd am y ddafad sy'n brefu'n y cwm.

Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni,
Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni!

E am enfys
F am fan
Ff am y ffermwr a'i gi bach, Sam.
G am gitâr
Ng am fy ngwely
H am yr haul sydd yn gwneud i mi wenu!

Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni,
Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni!

I am iâr
J am jeli
L am lori wncwl Hari
Ll am llyfr
M am mwnci
N am nos, mae hi'n amser cysgu!

Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni,
Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni!

O am oren
P am pili pala
Ph am ei phêl, mae hi'n amser chwarae
R am roced
Rh am rhuban
S am seren sgleiniog arian!

Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni,
Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni!

T am tractor
Th am ei thrên
U am utgorn Meri Jên
W am ŵy
Y am ystlum du,
hongian ben i waered mae'r creadur wyddoch chi?

Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni,
Dewch i ddysgu'r wyddor gyda ni,
A, B, C ac i ffwrdd â ni!